SUL CYFFREDIN 27

DANIEL 7:1-3, 15-18; SALM 149;
EFFESIAID 1:11-23; LUC 6:20-31

● Gweddi agoriadol

Dyma ni,
dy saint cyffredin
yn addoli eu Crëwr.
Dyma ni,
dy bobl gyffredin,
drwy rym dy Ysbryd
yn profi'r mwy na'r cyffredin;
dy weision cyffredin
yn byw gwirionedd dy air,
yn ddwylo a lleisiau i ti yn y byd.

● Moliant

Dad gogoneddus, Arglwydd pawb,
dyrchafwn dy enw yn uchel.
Datguddi fendithion
bywyd yn dy deyrnas,
rwyt yn ein dysgu
am gariad a thrugaredd;
ein denu yn nes
i'th bresenoldeb;
yn iacháu ein breuder;
yn anwesu ein heneidiau;
yn agor ein bywydau
i'th gariad a'th ras.
Dad gogoneddus, Arglwydd pawb,
dyrchafwn dy enw yn uchel.

● Cyffes

Pwy yw'r tlodion
ond y rheini a ŵyr nad oes dim ganddynt
hebot ti?
Pwy yw'r newynog
ond y rhai a ŵyr na ddaw eu cynhaliaeth
ond gennyt ti?
Pwy yw'r galarus
ond y rhai sy'n wylo am y llawer
nad ydynt yn dy adnabod?

Rho dy galon di ynom
dros y rhai sy'n chwilio;
rho dy galon di ynom
dros y rhai sy'n dioddef;
rho dy galon di ynom
dros y rheini yn ein byd
nad oes dim ganddynt
ond sydd â phopeth sydd ei angen
dim ond iddynt ymestyn tuag atat.

● Diolch

Y goludog yn dy olwg
yw nid y rheini sydd â phopeth
ond y rhai sy'n ystyried
nad oes ganddynt ddim hebot ti.
Nid y cyfoethog eu henillion,
ond y cyfoethog eu gwario,
sy'n rhoi eu bywyd drosot ti.
Dy saint cyffredin,
yn ddwylo i ti
ac yn llefaru dy eiriau
yn eu bywyd arferol,
yn gwneud pethau anghyffredin
gyda'r cyfan a roddaist iddynt.

Y cyfoethog yn dy olwg
yw nid y rheini sy'n deisyfu anrhydedd,
ond y rhai sy'n dymuno gwasanaethu.
Diolch am y gweision yn dy deyrnas.